

# Gwerthusiad o'r Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol

---

Cyflwynir i Lywodraeth Cymru gan gwmni  
ymchwil Arad

*Mai 2017*

Arad  
8 Rhodfa Columbus  
Maes Brigantîn  
Caerdydd CF10 4SD  
029 2044 0552  
[www.arad.wales](http://www.arad.wales)

ymchwil  
arad  
research

# Contents

<b>Crynodeb Gweithredol .....</b>	<b>3</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>6</b>
1.1 Cyd-destun y gwaith ymchwil .....	6
1.2 Nodau a dulliau'r adolygiad .....	7
<b>2. Am Grant NVYO .....</b>	<b>9</b>
2.1 Hanes .....	9
2.2 Derbynyddion cyfredol grant NVYO.....	11
<b>3. Canfyddiadau .....</b>	<b>13</b>
3.1 Gwerth ac effaith .....	13
3.2 Prosesau ymgeisio a rheoli .....	22
<b>4. Casgliadau ac argymhellion.....</b>	<b>26</b>
<b>Atodiad 1: Canllaw i'r pynciau i'w trafod yn ystod cyfweiliadau .....</b>	<b>29</b>
<b>Atodiad 2: Rhestr o'r ymgynghoreion.....</b>	<b>33</b>

# Crynodeb Gweithredol

---

## Cefndir yr astudiaeth

Mae grant y cynllun grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (grant NVYO) yn grant sefydledig gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid craidd a chyllid prosiect er mwyn cynorthwyo cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol.

Cychwynnodd y cylch ariannu cyfredol ym mis Ebrill 2015, a bydd yn parhau tan fis Mawrth 2018. Dyma'r sawl sy'n cael y grant yn ystod y cylch ariannu cyfredol: Clybiau Bechgyn a Merched Cymru, Gwobr Dug Caeredin, Girlguiding Cymru, ScoutsCymru, Cyfnewid UNA, Urdd Gobaith Cymru, ac Youth Cymru. Mae chwech o'r saith corff yn defnyddio'r grant i dalu eu costau craidd, ac mae dau o'r cyrff hyn yn defnyddio'r grant er mwyn cynnal gweithgareddau prosiect hefyd, ac mae'r corff sy'n weddill yn defnyddio'r grant at ddibenion prosiect yn unig.

Nod y gwerthusiad gan Ymchwil Arad oedd asesu effeithiolrwydd grant NVYO a meithrin dealltwriaeth glir o werth ac effaith y grant cyfredol ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol ar draws Cymru.

## Methodoleg

Bu tîm Arad yn adolygu dogfennau cefndir a oedd yn ymwneud â'r rhaglen grant, sef canllawiau Llywodraeth Cymru i'r ymgeiswyr, ffurflenni cais ac adroddiadau gwerthuso, ynghyd â dogfennau polisi ehangach. Cynhaliodd Arad gyfweiliadau manwl gyda'r cyrff a'r unigolion canlynol:

- Y saith corff sy'n cael grant NVYO ar hyn o bryd;
- Pum corff a oedd wedi ymgeisio am y grant yn ystod y rownd gyllido bresennol, ond a fu'n aflwyddiannus;
- Pum prif swyddog ieuenctid awdurdodau lleol neu eu swyddogion cyfatebol;
- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS);
- Swyddogion Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, cafwyd adborth gan bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â chwech o'r cyrff a ariannir, sef Gwobr Dug Caeredin, Urdd Gobaith Cymru, Youth Cymru, ScoutsCymru, Cyfnewid UNA a Girl Guiding Cymru.

## Prif ganfyddiadau

Mae grant NVYO yn cael effaith gadarnhaol ar allu cyrff gwirfoddol cenedlaethol i gynnig darpariaeth gwaith ieuenctid i bobl ifanc ar draws Cymru. Mae'n cyfrannu at allu cyrff i gynnal ac ehangu eu darpariaeth a'u strwythurau, gan greu cyfleoedd cyflogaeth a sicrhau cyllid ychwanegol, a chynllunio a datblygu gwaith ieuenctid o ansawdd. Mae hyn yn arwain at gynnig ehangach a mwy amrywiol, gan fodloni maen prawf cyllido allweddol sef sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gwaith ieuenctid ar draws pob ardal yng Nghymru.

Amlygwyd bod y cyllid craidd a ddarparir trwy gyfrwng grant NVYO yn elfen bwysig o alluogi cyrff gwaith ieuenctid i feithrin gallu sefydliadol, gan ehangu eu hadnoddau dynol ac ariannol trwy hyn. Mae'r cyllid hwn wedi caniatáu i gyrff ymateb i'r toriadau ariannol yn y sector gwaith ieuenctid a pharhau i fod yn annibynnol mewn rhai achosion. Mae'r amserlen ariannu tair blynedd yn cynorthwyo'r gweithgarwch hwn o ddatblygu gallu, ac mae'n helpu cyrff i greu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth a datblygu llwybrau dilyniant trwy gyfrwng hyfforddiant achrededig ac addysg gan gymheiriaid.

Mae cyllid grant NVYO wedi cynorthwyo cyrff i sicrhau cyllid ychwanegol er mwyn cynorthwyo'u gweithgareddau gwaith ieuenctid, gan fodloni maen prawf allweddol arall er mwyn sicrhau cyllid a chysylltu â nodau ac amcanion strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol 2014-18<sup>1</sup>. Mae'r cyllid hwn yn galluogi cyrff i ddatblygu gwaith prosiect ymhellach ym mhob rhan o Gymru, gan ychwanegu gwerth i'w gweithgareddau craidd, annog cymryd risgiau, partneriaeth a chaniatáu iddynt dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Yn gyffredinol, roedd cyrff yn fodlon â'r broses o ymgeisio am grant NVYO o ran y canllawiau a roddwyd, ac ar y cyfan, barnwyd bod y broses ymgeisio sy'n cynnwys dau gam yn rhywbeth cadarnhaol. Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys bod Llywodraeth Cymru yn darparu digwyddiadau ymgynghori er mwyn ymgysylltu â'r sector a sicrhau ei bod yn meddu ar lefel ofynnol yr ymwybyddiaeth a'r wybodaeth, a rhoi adborth manylach ac wedi'i deilwra'n fwy i ymgeiswyr.

Bu materion anochel i'r cyrff hynny y bu eu ceisiadau diweddar yn aflwyddiannus, yn enwedig y rhai a ariannwyd yn y gorffennol. Cyfeiriodd sawl corff aflwyddiannus at anawsterau ariannol a sefydliadol a diffyg gallu i gynllunio mewn ffordd strategol er mwyn ehangu eu cyrff a chynnig darpariaeth ar draws Cymru.

Mae ansawdd, amrediad a natur y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a gaiff ei gynorthwyo gan grant NVYO yn galluogi cyrff i gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ar draws Cymru, a cheir chysylltiadau gyda'r nodau ar gyfer gwaith ieuenctid a amlinellwyd yn Rhaglen Lywodraethu Cymru 2015-20<sup>2</sup>. Mae hyn yn cynnwys addysg, hyfforddiant, mynediad i'r celfyddydau a chwaraeon, dinasyddiaeth a rhoi sylw i iechyd corfforol a meddyliol. O ganlyniad i'r cymorth hwn, mae pobl ifanc yn gwella'u bywydau trwy feithrin eu sgiliau, sicrhau cymwysterau a datblygu llwybrau datblygu.

Mae cyllid grant NVYO yn galluogi cyrff i gymryd rhan lawn mewn prosiectau ar draws y DU, yn ogystal â dwyn dimensiwn Cymreig i gyrff sy'n weithredol ar draws y DU. Mae'r rhan fwyaf o gyrff yn gweithio ar lefel ryngwladol, ac mae'r cyllid yn eu cynorthwyo yn hyn o beth, gan gynnig proffil a hunaniaeth i waith ieuenctid Cymreig ac i'r sector gwirfoddol ehangach. Mae rhai cyrff yn defnyddio grant NVYO i weithio gyda phartneriaid llai ac mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu gallu o fewn y sector, gan sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael effaith yn lleol. Amlinellodd cyrff y ffaith ei bod yn parhau i fod yn bwysig bod gwaith ieuenctid yn cael ei ariannu ar lefel genedlaethol a lleol.

<sup>1</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140417-national-youth-work-strategy-en.pdf>

<sup>2</sup> <http://gov.wales/docs/strategies/110929fullen.pdf>

## Argymhellion

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cyllid craidd er mwyn galluogi cyrff ieuenctid gwirfoddol i ddatblygu eu heffaith ymhellach wrth ddarparu mwy o waith ieuenctid yng Nghymru.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi cylchoedd ariannu tair blynedd er mwyn cynorthwyo gweithgarwch meithrin capasiti, cynllunio strategol a chynnaladwyedd ar draws y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru.

**Argymhelliad 3:** Ar gyfer rowndiau ariannu yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal digwyddiadau ymgynghori cyn y cyfnod ymgeisio. Yn ogystal, dylai ystyried rhoi adborth manylach ac wedi'i deilwra'n fwy i ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfanswm y grant a gaiff ei neilltuo er mwyn sicrhau bod y cronfeydd grantiau sydd ar gael yn bodloni anghenion parhaus y sector.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gysylltu'r cyllid gyda darpariaeth gwaith ieuenctid amrywiol ac o ansawdd sy'n gysylltiedig gyda llwybrau dilyniant ac achredu ar gyfer pobl ifanc.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff y bu eu cais yn aflwyddiannus er mwyn eu cynorthwyo i nodi a chynllunio ffynonellau ariannu amgen cynaliadwy a sicrhau eu gallu i ddarparu gwaith ieuenctid ar lefel genedlaethol.

# 1. Cyflwyniad

---

Mae grant y cynllun grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (grant NVYO) yn grant sefydledig gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid craidd a chyllid prosiect er mwyn cynorthwyo cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol. Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso grant NVYO. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad, a gynhaliwyd dros gyfnod o chwe wythnos rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2017.

## 1.1 Cyd-destun y gwaith ymchwil

---

Cynigir y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru trwy gyfrwng gwasanaethau ieuenctid a'i nod yw cyfrannu at sicrhau bod yr holl bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru yn cael y gwasanaethau, y cymorth a'r profiadau y mae angen iddynt eu cael er mwyn gwireddu eu huchelgais a'u potensial. Mae'r gwasanaethau hyn yn seiliedig ar Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion<sup>3</sup> ac yn cael eu cyfeirio gan Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-18 Llywodraeth Cymru.<sup>4</sup> Ar hyn o bryd, mae'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru yn gweithio gyda 250,000 o bobl ifanc 11-25 oed ac mae'n cynnwys tua 30,000 o wirfoddolwyr a 3,000 o staff cyflogedig.<sup>5</sup>

### 1.1.1 Grant NVYO

Mae cynllun grant NVYO yn darparu cyllid er mwyn cynorthwyo cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol i barhau i ddarparu a datblygu cyfleoedd gwaith ieuenctid o ansawdd i bobl ifanc 11 i 25 oed. Gall y grant ddarparu cymorth gyda chostau craidd cyffredinol h.y. cymorth ar gyfer costau seilwaith cenedlaethol corff yng Nghymru; sefydlogrwydd i gyrff er mwyn galluogi i ymyriadau da barhau; a/neu gymorth ar gyfer gweithgareddau newydd yng Nghymru<sup>6</sup>. Mae'r grant yn agored i gyrff gwirfoddol sy'n darparu gwaith ieuenctid i bobl ifanc 11-25 oed sy'n gweithredu ar draws Cymru gyfan. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid bod cyrff yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc yn unol â Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018<sup>2</sup>; Confensiwn CU ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Pobl Ifanc (Cymru) 2011; rhaid eu bod yn darparu gwaith ieuenctid yn unol â Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: egwyddorion a dibenion<sup>1</sup>; rhaid eu bod yn cynnwys pobl ifanc mewn ffordd ragweithiol yn rheolaeth y corff yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad.

Cychwynnodd y cylch ariannu cyfredol ar 1 Ebrill 2015 a bydd yn parhau tan 31 Mawrth 2018. Mae'r sawl sy'n cael grant yn ystod y cylch ariannu cyfredol fel a ganlyn: Clybiau Bechgyn a Merched Cymru, Gwobr Dug Caeredin (DofE), Girlguiding Cymru,

---

<sup>3</sup> <http://www.wlga.gov.uk/publications-and-consultation-responses-III/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013/>

<sup>4</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140417-national-youth-work-strategy-en.pdf>

<sup>5</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s53494/YW%2008%20Council%20for%20Wales%20of%20Voluntary%20Youth%20Services%20CWVYS.pdf>

<sup>6</sup> Fel y nodwyd yn y Canllawiau i Ymgeiswyr am y Grant, Gorffennaf 2015 <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/140715-nvyo-guiance-notes-en.pdf>

ScoutsCymru, Cyfnewid UNA, Urdd Gobaith Cymru, ac Youth Cymru<sup>7</sup>. Nodir manylion rowndiau ariannu blaenorol yn yr adran nesaf.

### 1.1.2 Defnyddio grant NVYO er mwyn cynorthwyo gweithgareddau penodol a chostau rhedeg craidd

Yn unol â'r diffiniad yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, prif ddiben gwaith ieuencid yw "*galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda hwy i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i feithrin eu llais a chwarae rhan mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn*"<sup>8</sup>. Yn y cyd-destun hwn, roedd y gwerthusiad yn asesu effaith cyllid grant NVYO ar allu cyrff i gyflawni'r canlyniadau dymunol hyn ac a gaiff ansawdd y rhain ei achredu ac a ydynt yn sicrhau cyfleoedd dilyniant ac ymgysylltu pellach. Yn yr un modd, bu'r gwerthusiad yn archwilio'r effaith ar sgiliau trefnu ac a yw grant NVYO yn cynorthwyo'r ymdrech tuag at sicrhau gweithlu gwaith ieuencid sy'n meddu ar gymwysterau priodol.

## 1.2 Nodau a dulliau'r adolygiad

---

### 1.2.1 Nod ac amcanion y gwerthusiad

Nod y gwerthusiad, fel y nodwyd yn y fanyleb, oedd asesu effeithiolrwydd grant NVYO a meithrin dealltwriaeth glir o werth ac effaith y grant cyfredol ar ddarpariaeth gwaith ieuencid gwirfoddol ar draws Cymru.

### 1.2.2 Methodoleg

*Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid*

Cynhaliodd tîm yr astudiaeth gyfweiliadau manwl gyda'r cyrff a'r unigolion canlynol:

- Y saith corff sy'n cael grant NVYO ar hyn o bryd;
- Pum corff a oedd wedi ymgeisio am y grant yn ystod y rownd gyllido bresennol, ond a fu'n aflwyddiannus;
- Pum prif swyddog ieuencid awdurdodau lleol neu eu swyddogion cyfatebol;
- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol (CWVYS);
- Swyddogion Llywodraeth Cymru.

Diben yr ymgynghoriadau hyn oedd cael dealltwriaeth o safbwyntiau ymgynghoreion am grant NVYO, sut y'i darparir, ei werth a'i effaith, ac unrhyw sialensiau. Mae'r atodiad yn cynnwys copi o'r canllaw i'r pynciau i'w trafod yn ystod y cyfweiliadau hyn.

*Ymchwil gyda phobl ifanc*

Estynnwyd gwahoddiad i bobl ifanc sydd wedi bod yn ymwneud â'r gweithgareddau a ddarparwyd gan gyrff gwaith ieuencid gwirfoddol i fynegi eu safbwyntiau. Bu tîm yr astudiaeth yn trafod y dulliau gorau o gysylltu â nhw o fewn yr amserlen a oedd ar gael gyda'r cyrff, a gofynnwyd iddynt nodi'r hyn y maent yn ei werthfawrogi am yr hyn a gynigir

<sup>7</sup> Source: <http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/pages/plenaryitem.aspx?category=written%20question&itemid=3012>

<sup>8</sup> <http://www.wlga.gov.uk/publications-and-consultation-responses-III/youth-work-nos/>

gan eu cyrff, ac yn fwy bras, eu barn am y cyfleoedd i bobl ifanc yn eu hardal nhw neu yn y maes y mae ganddynt ddiddordeb ynddo, ac ynghylch blaenoriaethau ariannu. Cafwyd adborth gan bobl ifanc yr oeddent yn gysylltiedig â chwe chorff:

- Girlguiding Cymru – gofynnwyd cwestiynau i'r arweinwyr ifanc trwy gyfrwng cylchlythyr mewnol a neges e-bost i'r aelodau, ac roeddent wedi anfon eu hatebion i dîm yr astudiaeth mewn neges e-bost (10 ymateb).
- Gwobr Dug Caeredin – trefnwyd cyswllt rhwng tîm yr astudiaeth a dau lysgennad ifanc, yr aethant ymlaen i gyfleu eu sylwadau mewn neges e-bost (2 ymateb).
- Urdd – cafwyd adborth mewn neges e-bost gan lywydd y corff (1 ymateb).
- Cyfnewid UNA – trafodaeth grŵp gyda phum person ifanc yn ystod cwrs preswyl (un grŵp a oedd yn cynnwys 5 o bobl ifanc).
- ScoutsCymru – cyfweiliad dros y ffôn gyda chadeirydd y Cyngor Ieuenctid (1 ymateb)
- Youth Cymru – cynhaliwyd trafodaethau wyneb yn wyneb anffurfiol yn ystod digwyddiad cenedlaethol (un grŵp a oedd yn cynnwys tua 8 o bobl ifanc).

#### *Adolygiad Desg*

Bu'r tîm yn adolygu'r dogfennau cefndir a oedd yn ymwneud â'r rhaglen grantiau, sef canllawiau Llywodraeth Cymru i'r ymgeiswyr, ffurflenni cais ac adroddiadau gwerthuso.



## 2. Am Grant NVYO

### 2.1 Hanes

Mae grant NVYO yn grant sefydledig a arferai gael ei weinyddu gan Asiantaeth Ieuencid Cymru cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb drosto i Lywodraeth Cymru yn 2006. Mae egwyddor cynorthwyo cyrff ieuencid gwirfoddol cenedlaethol i ddarparu a datblygu cyfleoedd Gwaith Ieuencid o ansawdd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru wedi parhau i fod yn nodweddd ddigyfnewid y grant.

#### 2.1.1 Adolygiadau blaenorol

Mewn adolygiad mewnol a gynhaliwyd gan swyddogion yng Nghangen y Strategaeth Gwaith Ieuencid ym mis Mehefin 2011, cadarnhawyd bod y grant;

- Yn gwneud cyfraniad pwysig i seilwaith y derbynyddion.
- Yn cynnig gwerth am arian – yn enwedig o ystyried rôl y grant wrth alluogi derbynyddion i sicrhau cyllid ychwanegol.
- Mae pob derbynydd yn cydnabod cyflawniadau pobl ifanc trwy gyfrwng systemau achredu / bathodynau.
- Yn hanfodol i weithrediad derbynyddion penodol. Mae nifer o dderbynyddion yn hollol ddibynnol ar y grant hwn er mwyn talu eu costau craidd.

#### 2.1.2 Llinell amser y symiau grantiau a ddyfarnwyd

Cyfanswm presennol y grantiau a ddyfarnwyd yw £655,786, ac mae hwn yn ostyngiad o'i gymharu â'r sefyllfa yn ystod blynyddoedd blaenorol.

#### Box 1: Key dates and grant award amounts.

2009-2012	£688,000 y flwyddyn am dair blynedd. Cafodd 14 o Gyrrff Ieuencid Cenedlaethol grant blynyddol a oedd yn amrywio o £11,640 i £73,720.
2011/12	Penderfynodd Gweinidogion ostwng y grant NVYO gymaint â 3% i £679,000.
2012-13	Cytunwyd ar drefniant treigl am flwyddyn, a chynhaliwyd lefelau ariannu y grant ar gyfer 2012-13.
2013-15	Ail-agorwyd rownd 'ymgeisio cystadleuol' ar gyfer 2013. Roedd gwerth y grant NVYO wedi aros ar y lefel flaenorol, sef £679,000, am 2 flynedd.  Mynegwyd Diddordeb gan 20 o wahanol brosiectau; 10 ymgeisydd llwyddiannus.  Nod y rownd hon oedd dangos mwy o effaith ar feithrin sgiliau a sgiliau cyflogadwyedd.  Roedd y grant blynyddol yn amrywio o £35,000 i 116,000.

2015-2018 (rownd gyfredol)	<p>Mae gwerth y grant hud at £655,786 yf.</p> <p>Mae'r grantiau a ddyfarnir yn amrywio o £65,000 i £137,262 yf.</p> <p>Mynegwyd diddordeb gan 15 corff ac estynnwyd gwahoddiad i 13 ohonynt gyflwyno cais. Dyfarnwyd y grant i saith corff.</p>
----------------------------	---

### 2.1.3 Y broses o reoli'r grant

Gweinyddir a rheolir y grant gan gangen y strategaeth ieuencid yn Llywodraeth Cymru. Mae'r tîm yn rheoli'r broses o ymgeisio am grant (gyda chymorth ynghylch arfer da gan Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru), mae'n rheoli'r holl gyfathrebu gyda'r sawl y rhoddir y grant iddynt, ac mae'n cael ac yn adolygu ffurflenni monitro a gwerthuso.

### 2.1.4 Y broses ddethol

Cafwyd 15 cais yn ystod cam Mynegi Diddordeb (Eol) y rownd grant NVYO hon. Yn unol â chynghor y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau ac adborth gan randdeiliaid o'r sector, cyflwynwyd cam Mynegi Diddordeb yn 2012.

Yna, gwahodwyd y rhai a oedd yn bodloni meini prawf Eol i lenwi ffurflen gais. Bu panel o chwe aelod mewnol ac allanol yn adolygu'r ceisiadau hyn yn erbyn y meini prawf a nodwyd yn y nodyn cyfarwyddyd<sup>9</sup>. Ni phenderfynwyd ar nifer benodedig o gyrff i'w hariannu ar y cychwyn, yn hytrach, rhoddwyd cyllid i'r ymgeiswyr a sicrhaodd y sgoriau uchaf nes i'r holl gronfeydd gael eu neilltuo.

### 2.1.5 Gwario'r Grant

Yn y rhan fwyaf o achosion, telir taliadau grant ymlaen llaw, ond cafodd dau gorff ôl-daliadau. Rhaid gofyn am gael taliad ymlaen llaw ac mae'n rhaid i'r corff ddangos bod angen iddynt gael taliad ymlaen llaw er mwyn iddynt fod yn gymwys. Gall y grant ariannu costau craidd a chostau prosiect. Fel arfer, mae'r costau craidd, neu'r costau rhedeg, yn cynnwys costau rheoli cyffredinol megis cyflogau, safleoedd a gwaith gweinyddol y corff cyfan, ac roedd cyllid ar gyfer prosiectau ar gael er mwyn cynorthwyo 'gwaith ieuencid o ansawdd uchel' y mae'r corff yn 'gallu dangos canlyniadau ac allbynnau eglur sy'n berthnasol i'r angen cenedlaethol' ar ei gyfer.

Bydd y sawl sy'n cael grant yn adrodd am allbynnau a chanlyniadau mewn adroddiad gwerthuso blynyddol ac mewn adroddiad diweddar byrrach bob chwe mis. Darparir templed ar gyfer yr adroddiad hwn sy'n gofyn am gyflawniadau yn erbyn camau gweithredu, allbynnau a chanlyniadau a gynlluniwyd. Caiff y canlyniadau a'r allbynnau hyn a gynlluniwyd eu tynnu o'r llythyr cynnig grant yn uniongyrchol, ac yn ei dro, tynnodd hwn restr y gweithgareddau o'r ffurflenni ymgeisio am grant. Mae rhai cyrff yn dewis paratoi

<sup>9</sup> Mae nodiadau cyfarwyddyd ar gael yma <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/140715-nvyo-guiance-notes-en.pdf>

deunyddiau ac adroddiadau gwerthuso ehangach at eu dibenion eu hunain, neu'n unol â gofynion grantiau eraill.

## 2.2 Derbynyddion cyfredol grant NVYO

Ariannwyd saith corff yn ystod y rownd gyfredol, ac mae pob un ohonynt yn ei ddefnyddio at wahanol ddibenion. Mae chwech o'r saith corff yn defnyddio'r grant i dalu eu costau craidd, ac mae dau o'r cyrff hyn yn defnyddio'r grant ar gyfer gweithgareddau prosiect hefyd, ac mae'r corff sy'n weddill yn defnyddio'r grant ar gyfer gweithgareddau prosiect yn unig. Mae'r tabl isod yn cynnig amlinelliad o'r hyn yr oedd y saith corff yn bwriadu gwario'r grant arno, fel y nodwyd yn eu cyflwyniadau mynegi diddordeb.

Tabl 1. Amlinelliad o weithgarwch grant a gynlluniwyd

Corff	Cyllid craidd	Cyllid prosiect	Amlinelliad byr o'r cynnig
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru	√	√	<p>Cynorthwyo rhaglen waith genedlaethol o weithgareddau newydd a gweithgareddau a gynhelir eisoes;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr – cyflwyno llawlyfr clwb newydd;</li> <li>• datblygu rhaglen newydd sy'n adlewyrchu gwaith ieuencid yng Nghymru;</li> <li>• datblygu partneriaethau newydd a chryfach;</li> <li>• parhau i ddatblygu gwaith Clybiau Bechgyn a Merched – ymestyn cyfleoedd a grwpiau targed – yn benodol, y rhai sydd ag anableddau;</li> <li>• parhau datblygiad gwasanaethau gwybodaeth, cymorth a chynghori;</li> <li>• parhau rhaglen gynhwysfawr i'r holl bobl ifanc; a</li> <li>• darparu cymorth gweinyddol cyffredinol.</li> </ul>
Girlguiding Cymru		√	<p>Cynorthwyo gwaith newydd a gwaith a wneir eisoes. Gwaith newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diwylliant a'r iaith Gymraeg – cynnig rhywbeth etifeddol i bobl ifanc</li> <li>• cyflogi swyddog datblygu a chynorthwydd gweinyddol;</li> <li>• 12 o gyflogeion a 60 o wirfoddolwyr i fynychu cyrsiau Cymraeg;</li> <li>• cyrsiau preswyl ar gyfer 360 o bobl ifanc</li> <li>• cyrsiau preswyl dwyieithog;</li> <li>• ysgrifennu a darparu bathodyn her newydd, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg;</li> <li>• galluogi staff i ddilyn cymhwyster a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol; a</li> <li>• darparu 6 fforwm ar draws Cymru a rhoi llais i bobl ifanc.</li> </ul> <p>Cynorthwyo darpariaeth sy'n bodoli eisoes: cynorthwyo 6 chwrs addysg gan gymheiriaid i 150 o bobl ifanc er mwyn iddynt ddod yn addysgwyr cymheiriaid.</p>

ScoutsCymru	√		Gwnaethpwyd cais am; <ul style="list-style-type: none"> <li>gyfraniad tuag at y gost o redeg swyddfa ganolog; a</li> <li>chyflogi rheolwyr a gweinyddwyr.</li> </ul>
Gwobr Dug Caeredin	√	√	Gwnaethpwyd cais am gostau craidd er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>datblygu dull gweithredu newydd er mwyn cynorthwyo darpariaeth DC ar draws Cymru, er mwyn atal y cam o gau darpariaeth sy'n bodoli eisoes, a datblygu darpariaeth newydd.</li> </ul> Costau prosiect er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>darparu cymorth uniongyrchol i oedolion sy'n wirfoddolwyr a gwirfoddolwyr ifanc;</li> <li>datblygu'r Rhaglen Arweinwyr Ifanc sy'n bodoli eisoes; a</li> <li>chynnig cyfleoedd newydd i bobl ifanc sicrhau gwobr DC.</li> </ul>
Cyfnewid UNA	√		Ymgeisiwyd am: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gyfran o gyllid craidd er mwyn cynnig sylfaen sefydlog; a'u</li> <li>galluogi i greu profiadau gwirfoddoli rhyngwladol.</li> </ul>
Urdd Gobaith Cymru	√	√.	Ymgeisiwyd am gostau craidd: <ul style="list-style-type: none"> <li>er mwyn cynorthwyo i dalu costau 3 aelod o staff;</li> <li>costau swyddfa/cymorth; ac</li> <li>Er mwyn rhedeg Camu Ymlaen</li> </ul> Costau prosiect: <ul style="list-style-type: none"> <li>er mwyn cynnig hyfforddiant, achredu a phrofiadau i bobl ifanc.</li> </ul>
Youth Cymru	√		Ymgeisiwyd am gostau craidd: <ul style="list-style-type: none"> <li>4 o staff, er mwyn cynorthwyo'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol (aelodau – 129 (2013) – mae'r hwn wedi codi gymaint â 39% eleni;</li> <li>dwyn incwm ychwanegol i Gymru;</li> <li>creu rhwydweithiau;</li> <li>cynnal prosiectau cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc; a</li> <li>dwyn cwmnïau cenedlaethol ynghyd gyda gwasanaethau ieuenctid – llwyddwyd i ddwyn Starbucks ynghyd gyda darpariaeth ieuenctid.</li> </ul>

Ffynhonnell: Cyflwyniadau Mynegi Diddordeb.

## 3. Canfyddiadau

---

Mae'r adran hon yn amlinellu prif ganfyddiadau'r gwerthusiad. Mae'n dechrau trwy archwilio gwerth ac effaith grant NVYO ar gyrff a ariannir ar hyn o bryd a'r rhai a ariannwyd yn flaenorol, cyn amlinellu'r prosesau sy'n ymwneud â'r grant, gan gynnwys y broses ymgeisio, monitro'r grant a safbwyntiau cyffredinol ynghylch yr amgylchedd ariannu ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru.

### 3.1 Gwerth ac effaith

---

Mae modd gweld gwerth ac effaith grant NVYO ar gyrff a'r bobl ifanc y maent yn ymgysylltu â nhw mewn nifer o wahanol ffyrdd. Adroddodd cynrychiolwyr derbynyddion presennol a blaenorol y grant am amrediad o effeithiau sy'n ymwneud â'u potensial i ddatblygu gallu corff, creu cyfleoedd cyflogaeth, sicrhau cyllid ychwanegol a chynllunio a datblygu gwaith ieuenctid o ansawdd ar draws Cymru. Yn ogystal â datblygu gallu, nodwyd bod cyllid a ddarparwyd trwy gyfrwng grant NVYO wedi bod yn ffactor hollbwysig wrth sicrhau llwyddiant a chynorthwyo cyrff ieuenctid i ddarparu gweithgareddau a phrosiectau ar draws y sector ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, gan wella'u gallu i drosglwyddo'r buddion yn uniongyrchol i'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

#### 3.1.1 Datblygu gallu corff

Mae nodiadau cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyfer grant NVYO yn nodi bod darpariaeth barhaus y Cynllun Grant yn cynnig y ffordd i gyrff cenedlaethol 'barhau i ddarparu a datblygu cyfleoedd Gwaith Ieuenctid o ansawdd' a 'rhoi sefydlogrwydd i gyrff yng Nghymru, gan alluogi Cymru i gadw'r ymyriadau gwaith ieuenctid o ansawdd sydd gennym.' Amlygwyd y cyllid craidd a ddarparir trwy gyfrwng grant NVYO gan gyrff sydd wedi cael budd yn flaenorol a'r rhai sy'n cael budd ar hyn o bryd fel elfen allweddol sy'n eu galluogi i ddatblygu eu gallu fel corff, gan ehangu eu hadnoddau – yn rhai dynol ac yn rhai ariannol – er mwyn gwasanaethu'r bobl ifanc y maent yn eu cynrychioli yn well a threfnu gweithgareddau a phrosiectau ar eu cyfer. Er bod pob corff wedi amlinellu gwerth grant NVYO wrth gynorthwyo gyda'u gweithgareddau a'u presenoldeb ar draws Cymru, nododd nifer o'r prif gynrychiolwyr nad yw lefel y cyllid wedi codi ers deng mlynedd, ac y dylid cydnabod hyn mewn rowndiau cyllid ar gyfer y sector yn y dyfodol.

O ran datblygu gallu corff, roedd y cyrff wedi cynnig ystod eang o enghreifftiau i'r adolygiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys y gallu i dalu costau ymchwil a chynllunio prosiectau wrth iddynt ymgeisio am waith arall, yn benodol trwy roi'r amser iddynt sicrhau incwm a chynllunio'r prosiect, y broses ymgeisio a'i gyflawniad dilynol pe byddent yn llwyddiannus. I'r holl gyrff a ariannir ar hyn o bryd, mae'r cyllid yn caniatáu iddynt atgyfnerthu eu statws neu, mewn sawl achos, i dyfu, gan ddatblygu mwy o ffyrddiau incwm, sy'n arwain at ragor o aelodau a mwy o weithgareddau gwaith ieuenctid ar draws Cymru.

---

*“Mae'n cynorthwyo cyrff ieuenctid gwirfoddol, mae'n cynorthwyo elusennau. Felly mae cyrff fel ni wedi nodi'r hyn sy'n gweithio. O ran y gwerth am bob punt, byddwch yn cael llawer mwy gyda'r ffordd yr arferai*

*NVYO weithio pan oedd yn cynnig y sefydlogrwydd hwnnw a'r sicrwydd hwnnw y byddai modd i ni gynllunio'n well ar ei gyfer.”* **Cynrychiolydd arweiniol corff a ariannir**

---

Ar gyfer cyrff a ariannir, mae grant NVYO yn caniatáu iddynt fod yn hyblyg o ran eu datblygiad fel corff, ac mae'n cyfrannu mewn ffurfiau amrywiol megis cyflogau, costau gwirfoddolwyr, costau teithio a llywodraethu. I sawl corff, mae cymorth i dalu cyflogau staff yn caniatáu i'r staff ganolbwyntio ar sicrhau cyllid arall, ymchwilio a nodi meysydd lle y gwelir angen a bylchau yn y ddarpariaeth gwaith ieuencid a gwneud gwaith prosiect ar draws Cymru. Mae eraill wedi ceisio newid strwythurau sefydliadol er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynaliadwy. Mae enghreifftiau'n cynnwys newid strwythurau gwirfoddolwyr, gan roi cymorth gwell i aelodau ar lefel Cymru gyfan a recriwtio mwy o staff a gwasgaru'r swyddogion gweithredol hyn ar draws y wlad er mwyn nodi a chynorthwyo gweithgarwch lleol.

Mae nifer o'r cyrff a ariannir ar hyn o bryd a'r rhai a ariannwyd yn flaenorol wedi defnyddio cyllid grant NVYO i gynorthwyo a threfnu eu gwirfoddolwyr yn well ac annog cyfathrebu, trefniant a chynllunio strategol gwell ar gyfer y dyfodol, ac mae sawl corff wedi datblygu rolau cyfarwyddwyr newydd er mwyn cyflawni hyn. Mae un corff wedi datblygu rhaglen waith genedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes, ac mae un arall yn parhau i ddatblygu gwasanaethau gwybodaeth, cymorth a chynghori. Mae eraill yn parhau i ddatblygu rhaglenni cymorth ar gyfer grwpiau targed amrywiol, gan gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol megis pobl ifanc NEET ac anabl, a chynnig cymorth gweinyddol cyffredinol.

Adroddodd eraill bod ehangu eu gwaith ar draws Cymru wedi eu galluogi i ymgysylltu â phobl ifanc ar draws Cymru, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ehangu eu ffynonellau ariannol er mwyn cynorthwyo gyda'r broses hon. I rai cyrff, mae hyn yn cynnwys gallu cynnal Pencadlys yng Nghymru, ac yn ôl eu cynrychiolwyr, mae hyn yn caniatáu iddynt fodloni maen prawf allweddol er mwyn sicrhau cyllid, sef sicrhau bod rhagor o ddarpariaeth gwaith ieuencid ar draws pob rhan o Gymru. Yn ychwanegol, adroddodd rhai cyrff bod y sefydlogrwydd hwn – a'r cyfleoedd sy'n deillio o hyn er mwyn gwneud gwaith cynllunio strategol – yn caniatáu iddynt dargedu ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol, manau lle y mae eu haelodaeth a'u cyfraddau ymgysylltu wedi bod yn isel yn draddodiadol.

---

*“Mae'n rhoi'r gallu i ni ymestyn allan ac ymateb, gan gynorthwyo ein gwirfoddolwyr a'n pobl ifanc. Mae'n rhoi cryn dipyn o gydnerthedd a chynladwyedd i ni.”*

---

Nododd cynrychiolydd un corff bod y cyllid yn rhoi '*sefydlogrwydd a rhwyd ddiogelwch*' iddynt ac adroddodd un arall ei fod yn '*cael gwared ar nifer fawr o'r tasgau sy'n gysylltiedig â llywodraethu oddi ar ysgwyddau'r gwirfoddolwyr, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar ddatblygu prosiectau er budd y bobl ifanc yr ydym yn eu cynrychioli.*' Nododd sawl corff bod y cyllid hefyd yn caniatáu i'r holl arian sy'n cael ei godi gan ffioedd aelodaeth gael ei neilltuo i ddarparu prosiectau, gan gynnig budd i'r corff ac i aelodau unigol y cyrff hyn.



### 3.1.2 Manteision cyllid craidd

Roedd yr holl gyrff a ariannir ar hyn o bryd a'r rhai a ariannwyd yn flaenorol yn canmol manteision cyllid craidd, gan ei fod yn cynorthwyo gallu cyrff yng Nghymru i ymgysylltu mewn ffordd effeithiol ar draws Cymru – ac ar lefel ehangach ar draws y DU ac yn rhyngwladol. I rai cyrff, mae hyn yn golygu cynorthwyo gallu rheolwyr uwch a chynllunio strategol, gan greu seilwaith sefydliadol er mwyn cynorthwyo gweithgarwch gwneud penderfyniadau a nodi mecanweithiau eraill, gyda'r nod o ehangu eu gwasanaethau gwaith ieuenctid. I eraill, mae'n ymwneud yn fwy â chynorthwyo staff ar lefel is i reoli prosiectau ac i ymgysylltu mewn ffordd effeithiol â phobl ifanc, gan ganiatáu rheolwyr uwch i sicrhau bod cyrff yn cael eu rhedeg mewn ffordd gadarn a bod eu sefyllfa ariannol yn gadarn.

---

*“Un o'r prif bethau a oedd yn fanteisiol am y cyllid hwn oedd y ffaith ei fod yn cynorthwyo i dalu costau craidd. Rydym yn ddarpariaeth cymorth ieuenctid y mae modd i bawb fanteisio arno, felly roedd modd i ni gynorthwyo pobl ifanc yn gyffredinol gan ddefnyddio'r arian hwn oherwydd ein bod yn cynnig darpariaeth gyffredinol. Ond pan welwyd meysydd lle'r oedd angen, roeddem yn defnyddio'r grant NVYO hefyd i gynorthwyo'r grwpiau anodd i'w cyrraedd a dargedir yn fwy ar yr un pryd. Bu hyn o fantais fawr i ni o ran ein heffaith.”* **Cynrychiolydd arweiniol corff a ariannwyd**

---

Yn ogystal, amlygwyd y diffyg cyllid craidd sydd ar gael gan ffynonellau eraill gan gynrychiolwyr y cyrff a ariannwyd, a nodwyd bod cyllid prosiect yn fwy cyffredin heddiw ar gyfer y sector ieuenctid yng Nghymru. Adroddodd cynrychiolydd arweiniol un corff bod y cyllid wedi caniatáu iddynt 'ymateb i doriadau ariannol eraill gan awdurdodau lleol a chynnal lefel eu cymorth a'u darpariaeth o ran cyfleoedd i bobl ifanc.' Nododd corff arall bod y cyllid wedi caniatáu iddynt gynnal eu hannibyniaeth fel elusen annibynnol, gan ganiatáu iddynt gynnal eu hethos a darparu eu rhaglen wirfoddoli ac ymgysylltu â'u grwpiau targed mewn ffordd lwyddiannus.

Cytunodd pob corff a ariannwyd bod y cyfnod ariannu o dair blynedd yn agwedd bwysig ychwanegol ar y ffaith bod modd iddynt gynllunio mewn ffordd effeithiol a chynnal eu gwaith. Roeddent yn cytuno bod hon yn elfen hanfodol o grant NVYO er mwyn eu galluogi i ddatblygu gallu'r corff a darparu dull gweithredu hyblyg, a nododd un cynrychiolydd, 'Yn fy marn i, mae'r cyfnod ariannu o dair blynedd yn hynod o bwysig. Ceir cymaint o gyllid am y tymor byr nawr ond wrth gwrs, o ran cynladwyedd er mwyn dangos effeithiau'r hyn yr ydych yn ei wneud a sicrhau ei fod yn bodloni anghenion newydd sy'n codi, nid yw hyn yn digwydd mewn cyfnod o chwe mis.'

### 3.1.3 Sicrhau cyllid arall

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol 2014-18 yn nodi y bydd yn ceisio targedu adnoddau grant NVYO i'r manau lle y mae cyrff yn 'y sefyllfa orau i sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan ffynonellau eraill.' Roedd mwyafrif y cyrff wedi rhoi enghreifftiau o'r ffordd

y mae grant NVYO yn eu cynorthwyo i sicrhau cyllid er mwyn cynorthwyo gyda'u gweithgareddau gwaith ieuenctid, gan fodloni maen prawf allweddol ar gyfer grant NVYO. Mae enghreifftiau'n cynnwys Prosiect Democratiaeth San Steffan (DU ac Iwerddon) 5 gwlad, sawl grant cyllid Erasmus Plus a oedd yn werth dros £100,000, Plant mewn Angen, amrediad o gyllid gan y sector preifat a Chyllid y Loteri Fawr, sy'n helpu i gynorthwyo'r 160 o glybiau sy'n aelodau a grwpiau ieuenctid ymbarél yn achos un corff.

---

*“Oni bai eich bod yn cael y cyllid craidd hwn, mae'n annhebygol y byddai modd i chi sicrhau'r £20,000 gan Blant mewn Angen, y £90,000 gan y Loteri ...y llynedd, llwyddom i sicrhau €100,000 trwy gyfrwng cyllid Erasmus+. Fel corff, os na fyddem wedi cael y cyllid craidd hwn trwy NVYO, ni fyddem wedi gallu sicrhau'r cyllid hwnnw sy'n cynnig rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc. Mae mor bwysig gan ei fod yn peri i gyrff weithio.”*  
**Cynrychiolydd arweiniol corff a ariannir**

---

Adroddodd cyrff bod cyllid grant NVYO yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu gallu, i dalu cyflogau staff yn rhannol, ac i ddatblygu strwythurau rheoli ac arbenigedd sefydliadol effeithiol er mwyn nodi a datblygu ceisiadau ariannol newydd. Mae llwyddo i sicrhau'r cyllid hwn yn galluogi'r cyrff hyn i ddatblygu eu gwaith prosiect ymhellach ym mhob rhan o Gymru, gan groesawu technolegau newydd a ffurfiau darparu newydd, ychwanegu gwerth i'w gweithgareddau craidd a darparu mwy ar gyfer pobl ifanc ar draws Cymru. Yn ogystal, mae'r cyllid ychwanegol yn cynorthwyo cyrff i ddatblygu gwaith prosiect sy'n targedu grwpiau unigol e.e. prosiect ar gyfer pobl ifanc trawsryweddol, gan ganiatáu iddynt dargedu adnoddau ar gyfer ardaloedd neu grwpiau sydd mewn angen penodol.

---

*“Roedd NVYO wedi cynnig llwyfan i ni sefydlu presenoldeb yng Ngogledd Cymru, a bu hyn yn fodd i ni sicrhau grantiau eraill.”* **Cynrychiolydd arweiniol corff a ariannir**

---

### 3.1.4 Creu a chynnal cyflogaeth

Yn ogystal, mae cyllid grant NVYO yn caniatáu i gyrff greu cyflogaeth, rhoi cyfle i bobl ifanc, eu datblygu a'u hyfforddi ac yna, cynnal eu cyflogaeth trwy gyfrwng cyllid arall ar gyfer prosiectau. Defnyddir y cyllid i dalu cyflogau staff yn rhannol ac amlygodd cyrff amrediad y rolau a gyflawnir gan unigolion gan gynnwys cyllid, rheoli swyddfa, trefnu gwirfoddolwyr, gweinyddu a swyddogion ymchwil. Unwaith eto, mae sicrhau adnoddau dynol ychwanegol yn faen prawf allweddol ac mae cyrff yn creu ac yn cynnal amrediad o gyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector ieuenctid gwirfoddol. Caiff y rhain eu cynorthwyo wrth iddynt gael hyfforddiant a symud ymlaen i sicrhau cymwysterau. Adroddodd un corff bod aelod o staff a dalwyd trwy gyfrwng grant NVYO wedi ennill Gwobr Gweithiwr Ieuenctid y Flwyddyn.

### 3.1.5 Darparu gwaith ieuenctid o ansawdd ar draws Cymru

Mae nodiadau cyfarwyddyd grant NVYO yn nodi hefyd y dylai costau prosiectau a delir gan y grant 'fod yn seiliedig ar anghenion a chynorthwyo darpariaeth leol' a nododd cyrff bod y cyllid wedi eu cynorthwyo i ymateb mewn ffordd hyblyg i anghenion y bobl ifanc y maent yn ymgysylltu â nhw.



I'r cyrff hyn, roedd y cyllid hwn yn seiliedig ar anghenion o ran eu gallu i ddarparu gweithgareddau gwaith ieuencid amrywiol ac o ansawdd ar draws Cymru yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Roedd meini prawf y grant yn nodi bod yn rhaid i'r cyrff a fyddai'n cael cyllid ddarparu ar lefel genedlaethol a gweithio mewn o leiaf 18 o'r 22 awdurdod lleol. I ran fwyaf y cyrff a ariannwyd, roedd y ddarpariaeth genedlaethol yn parhau eu presenoldeb ar draws Cymru a oedd wedi bodoli ers cryn amser ac i rai, roedd y grant wedi bod yn fodd o ysgogi cynnydd o ran eu darpariaeth mewn rhannau newydd o Gymru. Roedd Prif Swyddogion Ieuencid rhai awdurdodau lleol yn amheus fodd bynnag ynghylch faint o ddarpariaeth oedd yn cael ei darparu ar draws Cymru gan rai o'r cyrff a ariannir, gan bwysleisio 'bod yn rhaid i genedlaethol olygu cenedlaethol'.

Yn ogystal, mae cyrff wedi datblygu amrediad o brosiectau wedi'u targedu ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn ymateb i'r galw am waith ieuencid a rhoi sylw i anghenion grwpiau penodol o bobl ifanc. Mae'r cyllid ar gyfer prosiectau wedi bod mewn sawl ffurf ac fe'i ddefnyddir i ymestyn y ddarpariaeth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a rhoi sylw i feini prawf ariannu allweddol ynghylch ystod eang y gweithgareddau, y cymorth a'r grwpiau targed y disgwylir i gyrff ieuencid a ariannir eu cynorthwyo.

Ystyrir cyllid ar ffurf grant NVYO hefyd er mwyn caniatáu i'r sector ieuencid yng Nghymru gymryd risgiau, cydweithio, arloesi a chynnig darpariaeth ieuencid o ansawdd, sy'n faen prawf allweddol pellach er mwyn sicrhau cyllid. Roedd cynrychiolwyr cyrff wedi mynegi amrediad o safbwyntiau bod grant NVYO yn annog cyrff ieuencid i fod yn addas i'r diben ac i fod yn gallu arloesi a chymryd risgiau wrth roi cynnig ar syniadau newydd. Mae'n rhoi'r sefydlogrwydd iddynt i ymgeisio am gyllid arall a datblygu mathau newydd o ddarpariaeth, er enghraifft trwy ddefnyddio technolegau newydd (e.e. roedd un corff wedi datblygu prosiect datblygu ap), gan dargedu ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol ar draws Cymru hefyd trwy gyfrwng sesiynau preswyl a gweithgareddau eraill megis datblygu cyfleoedd gwaith ieuencid a gwirfoddoli rhyngwladol. I'r cyrff hyn, mae grant NVYO yn rhoi 'hygrededd' iddynt a'r cyfle i ddangos 'eu bod yn rhan o rywbeth mwy'.

Mae ansawdd, ystod a natur darpariaeth y gwaith ieuencid a gefnogir gan grant NVYO yn galluogi cyrff i gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ar draws Cymru. Ar wahân i ystod eang y prosiectau a ddatblygwyd o ganlyniad i sicrhau cyllid pellach, mae cyrff o'r farn hefyd bod y grant yn eu galluogi i ddatblygu cynnig o ansawdd sy'n rhoi dewis a chyfleoedd i'w haelodau ac i'r bobl ifanc sy'n ymgysylltu â nhw. Mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau ymwybyddiaeth trawsryweddol, prosiectau democratiaeth lleol, jamborïau, cyrsiau preswyl, mentora cymheiriaid a chyrsgiau arweinyddiaeth, gweithgareddau chwaraeon a'r celfyddydau a phrosiectau ymgysylltu â dinasyddiaeth a chymdeithas.

Mae creu llwybrau datblygu i bobl ifanc y tu hwnt i'w gweithgarwch ymgysylltu cychwynol â phrosiectau yn rhan allweddol o'r broses hon. Unwaith eto, mae hwn yn un o'r meini prawf er mwyn cael cyllid grant NVYO ac roedd cyrff wedi cynnig enghreifftiau o'r ffyrdd y maent yn ymateb i hyn. Mae un corff yn cynorthwyo amrediad o gyrsiau addysgu cymheiriaid er mwyn i 150 o bobl ifanc ddod yn addysgwyr cymheiriaid. Nodwyd pwysigrwydd hyn gan berson ifanc yn eu sylw a nodir isod.

---

*“Heb gyllid, ni fyddwn i'n Addysgwr Cymheiriaid. Mae Addysg Cymheiriaid yn rhywbeth gwerthfawr i mi gan nad rhywbeth sy'n fy helpu i feithrin fy sgiliau ydyw yn unig, ond mae'n helpu fy nghymheiriaid mewn gwahanol uned i ddysgu am faterion pwysig yn ein cymdeithas heddiw e.e. Meddwl mewn ffordd Gydnherth.” **Person ifanc***

---

Mae sawl corff yn darparu cymorth uniongyrchol i oedolion a phobl ifanc sy'n gwirfoddoli, gan gynnwys tystysgrifau sy'n cofnodi eu cynnydd, ac mae corff arall yn datblygu ei Raglen Arweinwyr Ifanc presennol er mwyn hyrwyddo a chydabod arweinyddiaeth yn y sector ieuencid. Nodwyd pwysigrwydd y cymorth hwn gan un person ifanc yn eu sylw isod.

---

*“Mae'r cyrsiau a fynychais wedi rhoi'r hyder i mi arwain grwpiau Enfysau, Brownis a Geidiau, yn enwedig ym maes Chwaraeon, ac rydw i'n mwynhau hyn yn fawr iawn.” **Person ifanc***

---

Felly, o ganlyniad i'r cymorth hwn, mae pobl ifanc yn gwella'u bywydau trwy feithrin eu sgiliau, sicrhau cymwysterau a gwella'u llwybrau datblygu. Mae'r sylwadau isod gan bobl ifanc yn dangos yr effaith hon.

---

*“Yr hyn yr wyf yn ei werthfawrogi am y Geidiau yw ei allu i feithrin creadigrwydd a hyder ymhlith merched ifanc, ac mae hyn yn eu hannog i wneud eu gorau ac i fod yn arweinwyr effeithiol y dyfodol.” **Person ifanc***

*“Rydw i'n gwerthfawrogi popeth am y Geidiau. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymaint o ferched a menywod ifanc, gan roi sgiliau bywyd iddynt, yn ogystal â'r hyder y bydd ei angen arnynt yn y dyfodol. Trwy hyn, rydw i'n golygu hyder mewn cyfweiliadau am swyddi, cyflwyniadau mewn prifysgol ac ati.” **Person ifanc***

*“Mae'r rhaglen arweinwyr ifanc yn galluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau arweinyddiaeth, sgiliau trefnu, sgiliau cyflwyno yn ogystal â llawer mwy er mwyn iddynt fod yn arweinwyr ifanc yn eu canolfan/ ysgol / clwb a gwella'r sgiliau y maent wedi'u sicrhau...” **Person ifanc***

---

I bobl ifanc eu hunain, a gyfwelwyd fel rhan o'r prosiectau, y neges allweddol oedd bod y cyrff cenedlaethol a ariannir trwy gyfrwng NVYO yn eu galluogi i gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u dymuniadau ac sy'n eu galluogi i gyfarfod pobl newydd.

---

*“Rydw i'n mwynhau'r holl gyfleoedd y byddaf yn eu cael i gyfarfod pobl newydd a gwneud gweithgareddau newydd.” **Person ifanc***

*Rydym yn cyfarfod ffrindiau o bob cwr o'r byd a byddwn yn cadw mewn cysylltiad â'r rhain.” **Person ifanc***

---

Mae cyrff cenedlaethol a ariannir trwy gyfrwng grant NVYO yn darparu cymorth ac arbenigedd i gyrff llai yn y sector ieuenctid gwirfoddol ac yn eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn prosiectau ar draws Cymru gyfan o ganlyniad i'w gwybodaeth mewn meysydd penodol megis cyllid, polisïau AD ac asesu risg. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc fynychu a gweithio ar ddigwyddiadau mawr a phrosiectau ar draws Cymru, yn ogystal â gwaith yn y DU a gwaith rhyngwladol, i gyfarfod gweithwyr ieuenctid eraill, cyfarfod cymheiriaid sy'n rhannu'r un diddordebau a hyrwyddo'r sector ieuenctid gwirfoddol.

*“Rydym yn cefnogi ein DC lle bynnag y mae'n digwydd ar draws Cymru – gan gadw'r proffil yn uchel a sicrhau bod pobl ifanc yn cael y profiad gorau y mae modd iddynt ei gael trwy sicrhau bod eu harweinwyr wedi cael eu hyfforddi a'u bod yn rhannu ein hethos.”*

---

### **3.1.6 Bodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru**

Mae grant NVYO yn cysylltu â rhai o'r dymuniadau allweddol a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu i Gymru 2015-20. Mae'r rhain yn cynnwys y cymorth ar gyfer cynlluniau sy'n ceisio dargyfeirio pobl ifanc rhag troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, prosiectau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant, hamdden, y celfyddydau, chwaraeon a mentrau er mwyn goresgyn camddefnyddio sylweddau; a rhoi sylw i anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol pobl ifanc. Felly, mae modd gweld cynllun a gweithrediad y grant NVYO yn unol ag ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r broses o ariannu a darparu cyfleoedd gwaith ieuenctid cynaliadwy ac o ansawdd ar gyfer pobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru.

Adroddodd cyrff a ariannir gan grant NVYO eu bod yn cyd-fynd yn fwy â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yng Nghymru trwy gyfrwng y cymorth a gafwyd a bod ehangu'r ddarpariaeth ar draws Cymru, y mae'r grant wedi cyfrannu ato, wedi golygu y bu modd iddynt fodloni meini prawf ariannu yn hyn o beth. Mae ystod eang y prosiectau'n cynnwys prosiectau addysg a hyfforddiant, prosiectau sy'n hyrwyddo mwy o gyfleoedd i fanteisio ar y celfyddydau a chwaraeon, prosiectau sy'n annog mwy o ymdeimlad o ddinasyddiaeth a chyswllt â democratiaeth, prosiectau sy'n rhoi sylw i allgáu cymdeithasol ac iechyd corfforol a meddyliol.

Roedd enghreifftiau pellach o fodloni blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru yn cynnwys gweithio mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynorthwyo agenda Trechu tlodi, datblygu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chydweithio'n agos gyda chyrff cenedlaethol eraill fel CGGC a CWVYS er mwyn llenwi bylchau a datblygu partneriaethau effeithiol.

Yn ogystal, mae NVYO yn cysylltu ag 'laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 tan 2017', yn enwedig y nodau i gynyddu darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith. Fel rhan o'r meini

prawf ariannu, mae gofyn i gyrff annog defnydd o'r iaith Gymraeg ac roedd rhai cyrff a ariannir wedi rhoi enghreifftiau o'u gweithgareddau er mwyn cyflawni'r nod hwn. Roedd y rhain yn cynnwys darparu cyrsiau Gymraeg i gyflogeion a gwirfoddolwyr, gan gynnwys y cyfle i symud ymlaen i sicrhau cymwysterau, ehangu gweithgareddau mewn ardaloedd Cymraeg at ei gilydd a datblygu prosiectau a sgiliau Gymraeg penodol.

Mae un corff yn darparu ei holl weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd wedi canfod bod y grant wedi rhoi'r 'cyfle i wella cysondeb o ran yr hyn a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Cymru.' Er gwaethaf gweithgareddau rhai cyrff y soniwyd amdanynt uchod, mynegwyd pryderon gan rai o'r rhai a gyfwelwyd yn yr adolygiad hwn nad yw'r cysylltiadau rhwng y grant a chyflawni strategaeth yr iaith Gymraeg yn ddigon cryf. Byddai hyn yn cyfateb ag adborth a gyflwynwyd mewn adolygiad<sup>10</sup> o gyfraniad awdurdodau lleol i Strategaeth yr Iaith Gymraeg, a ganfu 'yn gyffredinol, mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn cyfrannu at y Strategaeth, fodd bynnag...mae'r sefyllfa hon wedi datblygu ohoni'i hun yn hytrach nag o fwriad' wrth i'r awdurdodau lleol gynllunio a darparu ar eu pen eu hunain.'

### 3.1.7 Gwerth ychwanegol

Roedd cyrff a ariannir wedi rhoi enghreifftiau o'r gwerth ychwanegol y maent o'r farn y mae grant NVYO yn ei gyfrannu o ran eu cynorthwyo nhw a'u gwaith ieuenctid gwirfoddol ar draws Cymru. I rai, mae'r grant yn eu helpu i fod yn fwy gweladwy ar draws y sector ieuenctid ac ar lefel y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r cyllid yn galluogi cyrff i fod yn 'gangen' Gymreig cyrff yn y DU, gan gymryd rhan lawn mewn prosiectau a gynhelir ar draws y DU, yn ogystal â dwyn dimensiwn Gymreig i'r cyrff trwy eu cynrychiolaeth. Mae eraill yn gweithio ar lefel ryngwladol ac mae'r cyllid yn eu cynorthwyo yn hyn o beth, unwaith eto trwy roi proffil a hunaniaeth i'r sector gwirfoddol a gwaith ieuenctid Gymreig.

Adroddodd sawl corff a ariannir ar hyn o bryd a chyrrff a ariannwyd yn flaenorol eu bod yn defnyddio grant NVYO er mwyn gweithio gyda phartneriaid llai na fyddai modd iddyn nhw sicrhau cyllid o reidrydd. Mae hyn yn cyfrannu at greu gallu o fewn y sector a sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael effaith ar lefel leol. Roedd un corff wedi gweithio mewn partneriaeth â chanolfan galw heibio i bobl ifanc ac roedd datblygu eu gallu nhw yn rhan bwysig o'r prosiect, er mwyn iddynt allu gwneud rhagor o waith ieuenctid a gwaith achredu trwy gyfrwng Agored Cymru. Roedd un arall wedi datblygu llawlyfrau a Sicrhau Ansawdd Ymarferol (PQI) ar gyfer eu haelodau a chyrrff trydydd sector eraill er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd gywir ac effeithlon.

---

*“Un o'r materion gyda chael prosiectau cenedlaethol Cymru yw bod cyrff lleol ar eu colled weithiau. Felly credaf ei bod yn gyfrifoldeb ar yr holl bartïon i geisio ymgysylltu â chyrrff llai.”*

---

### 3.1.8 Effeithiau negyddol

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru (2016) 'Cyfraniad darpariaeth Awdurdodau Lleol ar gyfer Gwaith Ieuenctid i Strategaeth y Gymraeg', cyrchwyd o <http://gov.wales/docs/dcells/publications/161209-contribution-of-local-authorities-youth-work-provision-to-the-welsh-language-strategy-en.pdf>

Er bod grant NVYO wedi cael effaith gadarnhaol ar weithgarwch datblygu gallu y cyrff a ariannwyd, mae'n anochel y bu problemau i'r rhai y bu eu ceisiadau diweddar yn aflwyddiannus, yn enwedig y rhai yr oeddent wedi cael eu hariannu yn y gorffennol. Adroddodd un corff bod y penderfyniad '*bron wedi costio ein gwasanaeth ieuencid i ni*' a chyfeiriodd eraill at anawsterau ariannol a sefydliadol, diffyg gallu i gynllunio mewn ffordd strategol a gorddibyniaeth ar hyn o bryd ar gyllid tymor byr ar gyfer prosiectau. Adroddodd un corff eu bod wedi colli eu gallu i weithio ar lefel genedlaethol o ganlyniad i'r ffaith na chawsant gyllid.

I gorff arall, adroddwyd bod arweinwyr lleol yn wynebu llawer mwy o gyfrifoldeb, gyda'r faich yn cael ei rhoi ar ysgwyddau gwirfoddolwyr. Arsylwodd prif swyddog ieuencid un awdurdod lleol bod hyn wedi arwain at ostyngiad ym maint yr aelodaeth ac o ganlyniad i hyn, gostyngiad o ran y cyfleoedd i ddatblygu gwaith ieuencid gwirfoddol, a bu'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cymorth proffesiynol i'r canghennau lleol. Adroddodd cyrff eu bod wedi sicrhau incwm arall mewn rhai achosion er mwyn cynnal eu gwasanaethau, ond nodwyd mai'r brif effaith negyddol oedd eu diffyg arbenigedd a'u gallu i dyfu eu cyrff, gan gynnig darpariaeth ar draws Cymru gyfan. Roedd wedi cael effaith ar ddiogelwch swyddi o fewn rhai cyrff hefyd, gyda mwy o gyllid tymor byr yn cynorthwyo cyflogaion, ac roedd hyn wedi arwain at diffyg cynllunio strategol, cynaliadwy unwaith eto.

---

*"Bu'n rhaid i ni gynnig llai. Roedd yn rhaid i ni chwilio am ffynonellau incwm eraill... Bu'n rhaid i ni newid yr hyn yr oeddem yn ei wneud a bu'n rhaid i rannau eraill y busnes yr oedd angen buddsoddi ynddynt neu eu tyfu neu sicrhau eu cynaladwyedd, ddiodef o ran rhoi blaenoriaeth i bobl ifanc"*

*"Pan fyddwch yn gorff ieuencid cenedlaethol sy'n bresennol yn yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru, mae'ch graddfa weithredu yn gofyn am fwy o gronfeydd nag y byddai eu hangen pe baech yn gweithredu ar lefel fwy leol. Felly, mae bod mewn sefyllfa lle y gallwn ariannu'r hyn a wnawn o flwyddyn i flwyddyn yn destun gofid cyson i ni. Mae'n golygu chwilio'n ddi-baid."*

---

### 3.1.9 Persbectif pobl ifanc o effaith NVYO

Mae grant NVYO yn bodoli er mwyn cynnig cyllid craidd a chyllid prosiect i gyrff ieuencid gwirfoddol cenedlaethol, er mwyn eu galluogi i barhau i ddarparu a datblygu cyfleoedd gwaith ieuencid. Holwyd pobl ifanc am eu safbwyntiau ynghylch y cyfleoedd hynny, ynghyd â'u barn ynghylch effaith cymryd rhan yng ngweithgareddau'r corff arnyn nhw. Nodir rhywfaint o'u hadborth trwy gydol yr adroddiad hwn, ond roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo'n hynod o gadarnhaol ynghylch manteision cymryd rhan yng ngweithgareddau eu cyrff, gan esbonio mewn ffordd amrywiol eu bod yn cael budd gan '*brofiadau newydd sy'n meithrin ein hyder*'; eu bod yn cael '*cyfleoedd i wneud rhywbeth i'r gymuned*'; meithrin '*sgiliau trosglwyddadwy gwych*' ac yn anad dim, '*cael cyfarfod pobl ifanc eraill*.'

## 3.2 Prosesau ymgeisio a rheoli

Yn yr adran hon, rydym yn trafod y prosesau ymgeisio a gweinyddu a sefydlwyd ar gyfer y grant, gan ystyried y gwersi allweddol ynghylch cynllun unrhyw grant NVYO yn y dyfodol.

### 3.2.1 Proses ymgeisio am grant NVYO

Ym mis Gorffennaf 2014, estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i gyrrff ymgeisio am grant NVYO ar gyfer y cylch ariannu cyfredol, a fyddai'n cychwyn ym mis Ebrill 2015 ac yn gorffen ym mis Mawrth 2018. Y cam cyntaf i gyrrff oedd llenwi ffurflen Mynegi Diddordeb (Eol) erbyn mis Medi 2015 a rhoddwyd pecynnau ymgeisio llawn i'r cyrrff hynny yr oeddent yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cyllid grant, i'w dychwelyd erbyn mis Tachwedd. Cyhoeddwyd y penderfyniadau cyllido ym mis Rhagfyr 2014 a byddai'r cyfnod cyllido yn cychwyn ym mis Ebrill 2015.

Ystyriwyd y ceisiadau gan banel a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o dîm Strategaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru, Cangen Cymorth ac Arweiniad Ieuenctid a Changen yr Iaith Gymraeg; ac o CWVYS, Prifysgol Glyndŵr a chynrychiolydd o Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid.

Roedd y nodiadau cyfarwyddyd yn nodi'r meini prawf i'w bodloni. Byddai'n rhaid i gyrrff ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf canlynol,

- Dangos eu bod yn darparu gwaith ieuenctid yn genedlaethol ar draws Cymru; a'u bod yn gweithio gydag o leiaf 18 o blith y 22 awdurdod lleol.
- Dangos bod y cais yn seiliedig ar anghenion (gweithgarwch ac ariannol).
- Ymgynghorwyd â phobl ifanc ac mae'r ymgeisydd wedi nodi sut y byddant yn ymwneud â'r gwaith o gyflawni eu cynnig.
- Dangos sut y bydd y cyllid hwn yn galluogi'r ymgeisydd i sicrhau adnoddau ychwanegol (ariannol / dynol).
- Dangos sut y maent yn cyfrannu i'r Rhaglen Lywodraethu (e.e. efallai y bydd yn cynnwys eu cyfraniad i'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol hefyd).
- Dangos sut y byddant yn cydnabod dilyniant pobl ifanc trwy gyfrwng achredu / tystysgrifau.
- Dangos sut y byddant yn annog defnydd o'r iaith Gymraeg, ymhlith staff a phobl ifanc.
- Sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid o ansawdd.
- Yn gallu monitro, gwerthuso a chrisialu'r effaith – ar niferoedd y bobl ifanc y gweithiwyd gyda nhw, achrediadau a sicrhawyd gan bobl ifanc, cyfleoedd a gynigiwyd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac y manteisiwyd arnynt, a sgiliau staff.
- Wedi ystyried gwerth am arian.

### 3.2.2 Safbwyntiau am y broses ymgeisio

Fel rhan o'r adolygiad hwn, holwyd barn cyrrff llwyddiannus ac aflwyddiannus am y broses ymgeisio a gofynnwyd iddynt gyfleu unrhyw newidiadau y byddent yn eu hargymell. Yn ystod ein cyfweiliadau ni, roedd pob corff wedi nodi y bu'r broses yn deg ac yn gymharol syml. Esboniwyd eu bod yn hapus â'r broses ymgeisio a'r trefniadau monitro dilynol, a dim ond mân newidiadau oedd ganddynt i'w hawgrymu.



Disgrifiwyd bod y nodyn cyfarwyddyd ynghylch sut i lenwi eu cais am grant yn eglur a disgrifiwyd y broses ymgeisio ei hun fel proses syml. Nododd cyrff bod y broses ymgeisio ar gyfer y rownd cyllid cyfredol yn gofyn i gyrff gyflwyno mwy o wybodaeth nag y gofynnwyd iddynt ei chyflwyno yn ystod rowndiau blaenorol, ond roeddent yn cydnabod bod hyn yn angenrheidiol gan bod mwy o mwy o gyrff yn ymgeisio, a'i bod yn bwysig sicrhau bod y grant yn mynd i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i'w ddefnyddio.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr yn croesawu'r cais sy'n cynnwys dau gam, lle y caiff EOI ei gynnwys er mwyn dynodi corff nad yw'n bodloni'r meini prawf. Nododd un corff eu bod o'r farn bod y broses dau gam yn ailadroddus ac yn cymryd cryn amser, ond roedd cyrff eraill yn croesawu'r ddau gam gan '*ei fod yn ddefnyddiol er mwyn ffurfio ein cynlluniau ac yna, roeddwn yn hyderus y byddai modd i mi gyflawni*'.

Ar gyfer rowndiau yn y dyfodol, byddai cyrff yn dymuno gweld y broses ymgeisio yn cael ei chynnal ymhell cyn diwedd y rownd flaenorol, fel bod modd iddynt gynllunio'r ddarpariaeth a'r sefyllfa staffio yn well.

#### *Canllaw ynghylch Ymgeisio*

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff a oedd yn ymgeisio, a chyhoeddwyd nodyn cyfarwyddyd er mwyn cyd-fynd â'r alwad grantiau. Roedd CWWYS wedi hwyluso cyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r sector, gan gynnig canllawiau cyffredinol ynghylch llenwi'r ffurflenni. Nododd rhai cyrff y byddai wedi bod o ddefnydd cael digwyddiad ar ffurf gweithdy, lle y byddai Llywodraeth Cymru yn esbonio'r hyn y mae angen ei gynnwys yn ffurflenni cais y cyrff; ac aeth un ymgeisydd gam ymhellach gan nodi eu bod yn dymuno cael eglurder ynghylch pa feysydd blaenoriaeth o'r Rhaglen Lywodraethu a strategaethau cysylltiedig y dylai'r ceisiadau am grantiau geisio rhoi sylw iddynt. Yn gyffredinol, roedd dymuniad i gael mwy o gymorth yn ystod y cam ymgeisio.

#### *Ar agor i bawb?*

Roedd gan ymgeiswyr aflwyddiannus safbwynt mwy negyddol pan ofynnwyd iddynt fyfyrir am y broses o lenwi'r ffurflen gais yn ôl yn 2014, ac roeddent yn nodi y byddent wedi dymuno cael mwy o gymorth yn ystod y cam ymgeisio, gan gynnwys cyngor a chymorth er mwyn gwneud trefniadau cydweithio. Yn ogystal, roedd tybiaeth mai dim ond cyrff mawr sydd eisoes yn cynnig darpariaeth ar draws Cymru fyddai'n gallu bod yn llwyddiannus, oherwydd y byddai cyrff llai neu gyrff rhanbarthol yn ei chael hi'n anodd ehangu eu gweithrediadau. Er y barnwyd bod bodolaeth grant ar gyfer y cyrff cenedlaethol mwy yn bwysig, codwyd cwestiynau am y dewisiadau cyllido ar gyfer y cyrff hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Yn ogystal, gofynnwyd cwestiynau ynghylch tegwch ymgeisio cystadleuol, er na chafwyd consensws ynghylch dulliau amgen. Yn wir, roedd un o'r cyrff a gyfwelwyd ac a ariannwyd yn ystod rowndiau blaenorol, ond y buont yn aflwyddiannus yn ystod y rownd hon, yn terfynu ei bresenoldeb yng Nghymru gan nad oedd modd iddo ei gynnal heb y cronfeydd.

### **3.2.3 Cynnwys pobl ifanc yn y broses ymgeisio**

Un o'r meini prawf allweddol ar gyfer cyrff sy'n gwneud cais am grant NVYO oedd dangos bod eu cais yn seiliedig ar anghenion, trwy gynnwys pobl ifanc yn y broses o gynllunio'u

cynnig. Roedd adborth a gafwyd gan bobl ifanc yn cynnig enghreifftiau o'r ffordd yr oeddent yn ymwneud â'r broses gyllido. Esboniodd un person ifanc sut y mae cyngor ieuenctid un o dderbynyddion y grant yn cael cyswllt uniongyrchol trwy gyfarfod i drafod y cais am gyllid a meddwl am syniadau o blith eu haelodaeth ynghylch sut y dylid defnyddio'r cyllid a gweithgareddau penodol y byddai modd ei neilltuo iddynt.

---

*“Meddyliom am nifer fawr o syniadau a oedd yn ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal, galluogi'r corff i annog rhagor o bobl ifanc i ymuno a chymryd rhan yn ein gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau ar draws Cymru, cymorth i dalu costau trafndiaeth a chostau aelodaeth a gweithgareddau er mwyn hyrwyddo [y corff ieuenctid]. Roedd [y corff ieuenctid] wedi mabwysiadu bron pob un o'r awgrymiadau, a daeth y rhain yn rhan annatod o gais NVYO.”* **Person ifanc**

---

Yn ogystal, rhoddodd llysgenhadon ifanc adborth ynghylch pwysigrwydd eu rôl nhw wrth sicrhau bod pobl ifanc yn ymwneud â'r broses gyllido. Y neges gyffredinol o'r sylwadau hyn yw bod rôl y llysgennad ifanc yn cynnig llais i bobl ifanc er mwyn eu galluogi i gymryd rhan wrth lywio cyfeiriad y ddarpariaeth a sicrhau ei bod yn seiliedig ar anghenion.

---

*“Credaf bod rolau fel y llysgennad yn ysgogi llais ifanc yn y corff. Rydw i wedi mynychu cyfarfodydd bwrdd rhanbarthol, cyfarfod â'r prif weinidog a mynychu digwyddiadau brenhinol. O hyn, rydw i wedi gweld bod angen cyfleu llais y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r wobwr er mwyn gwella'r ffordd y'i darparir...”* **Person ifanc**

---

### 3.2.4 Safbwyntiau am broses monitro grant NVYO

Mae gofyn i gyrrff adrodd i Lywodraeth Cymru yn erbyn targedau bob chwe mis; chwe mis ar ôl dechrau pob blwyddyn ariannol ac yna, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd cyrff bod hwn yn adroddiad hawdd i'w baratoi a'i fod yn ddull gweithredu ysgafn a groesawir, o'i gymharu â gofynion rhai grantiau eraill, ond gan gynnig y cyfle i fyfyrion a dysgu o hyd.

Mae'r adroddiadau gwerthuso yn amlinellu camau gweithredu a gynlluniwyd, allbynnau, canlyniadau a cherrig milltir, gan ddynodi wrth ymyl pob un ohonynt a ydynt wedi cael eu cyflawni oherwydd y grant. Mae enghreifftiau o allbynnau o'r adroddiadau mwyaf diweddar yn cynnwys:

- Pobl ifanc a gafodd hyfforddiant – achredu/cymwysterau, gwobrau, DC, hyfforddiant chwaraeon penodol, cymorth cyntaf, uwchsgilio pobl ifanc, cyrsiau Cymraeg
- Pobl ifanc sydd wedi cymryd rhan mewn teithiau cyfnewid ieuenctid, sesiynau preswyl.
- Cynyddu a datblygu aelodaeth
- Pobl ifanc yn gwirfoddoli



- Cynyddu gweithgarwch i hyrwyddo corff gwirfoddol
- Cynyddu nifer yr oedolion sy'n gwirfoddoli.

Yn ogystal, mae'r cyrff yn adrodd am wersi allweddol a ddysgwyd ac enghreifftiau o arfer da. Mae enghreifftiau o arfer da a gyflwynwyd yn yr adroddiadau mwyaf diweddar yn cynnwys,

- gweithio mewn partneriaeth a rhannu profiadau gyda gwasanaethau ieuencid yr ALI (Cyfnewid UNA a Chlybiau Bechgyn a Merched)
- Cydweithio gyda chyrff gwirfoddol eraill
- Prosiectau ar draws Cymru a ddarparir ar gyfer pobl ifanc.

Byddai'r cyrff a gyfwelwyd, fodd bynnag, yn croesawu rhywfaint o adborth manylach am eu hadroddiadau, fel ffordd o annog mwy o fyfyrion a gwelliant parhaus, a byddai rhai'n croesawu mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd gyda thîm y strategaeth gwaith ieuencid sy'n rheoli'r grant, er eu bod yn cydnabod mai tîm bach yw hwn, felly gallai cyflawni hyn beri problemau.

Bu rhai o'r cyrff yr oeddent wedi cael cyllid yn ystod rowndiau blaenorol ond y buont yn aflwyddiannus y tro hwn, yn myfyrion am y blynyddoedd blaenorol, ac roeddent o'r farn y byddai mwy o gydweithio rhwng y cyrff a ariannir yn werthfawr, yn ogystal â chyfarfod fel grŵp y sawl y rhoddwyd grant NVYO iddynt er mwyn rhannu arfer da a syniadau, a chychwyn ar drefniadau cydweithio posibl. Nid oedd y cyrff a ariannir ar hyn o bryd o'r farn bod hyn yn ymarferol fodd bynnag, ac roeddent o'r farn bod y cyfleoedd rhwydweithio sydd eisoes ar gael trwy gyfrwng CWWYS yn cyflawni'r rôl hwnnw.

## 4. Casgliadau ac argymhellion

---

Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dynodi pwysigrwydd grant NVYO a'i effaith gadarnhaol ar allu cyrff gwirfoddol cenedlaethol i gynnig darpariaeth gwaith ieuenctid i bobl ifanc ar draws Cymru. Mae cyfrannu at allu cyrff i gynnal a thyfu eu darpariaeth a'u strwythurau, creu cyfleoedd cyflogaeth, sicrhau cyllid ychwanegol a chynllunio a datblygu gwaith ieuenctid o ansawdd ymhlith y prif effeithiau a gaiff eu sicrhau gan y cyllid. Mae hyn yn arwain at gynnig ehangach a mwy amrywiol, gan fodloni maen prawf allweddol er mwyn sicrhau'r cyllid, sef gwneud yn siŵr bod mwy o ddarpariaeth gwaith ieuenctid ar gael ar draws pob rhan o Gymru.

Amlygwyd bod y cyllid craidd a ddarparir trwy grant NVYO yn elfen allweddol er mwyn galluogi cyrff i ddatblygu gallu sefydliadol, gan ehangu eu hadnoddau – yn rhai dynol ac ariannol – er mwyn gwasanaethu'r bobl ifanc y maent yn eu cynrychioli yn well. Mae'r cyllid hwn wedi caniatáu i gyrff ymateb i doriadau ariannol eraill a pharhau i fod yn annibynnol mewn rhai achosion. Nododd cyrff y diffyg cyllid craidd sydd ar gael gan ffynonellau eraill a barnwyd bod yr amserlen ariannu tair blynedd yn elfen allweddol er mwyn datblygu gallu a sicrhau dull gweithredu mwy hyblyg.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cyllid craidd er mwyn galluogi cyrff ieuenctid gwirfoddol i ddatblygu eu heffaith ymhellach wrth ddarparu mwy o waith ieuenctid yng Nghymru.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi cylchoedd ariannu tair blynedd er mwyn cynorthwyo gweithgarwch meithrin capasiti, cynllunio strategol a chynnaladwyedd ar draws y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru.

Yn gyffredinol, roedd cyrff yn fodlon gyda'r broses o ymgeisio am grant NVYO o ran y canllawiau a roddir a'r amser a roddwyd iddynt lenwi eu cais. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf yn barnu bod y broses ymgeisio sy'n cynnwys dau gam yn rhywbeth cadarnhaol. Un gwelliant a awgrymwyd oedd bod Llywodraeth Cymru yn darparu digwyddiadau ymgynghori er mwyn ymgysylltu â'r sector a sicrhau bod y sector yn meddu ar lefel ofynnol yr ymwybyddiaeth a'r wybodaeth. Un gwelliant arall a awgrymwyd oedd bod Llywodraeth Cymru yn rhoi adborth ymgeisio manwl ac wedi'i deilwra yn fwy i ymgeiswyr.

**Argymhelliad:** Ar gyfer rowndiau ariannu yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal digwyddiadau ymgynghori cyn y cyfnod ymgeisio. Yn ogystal, dylai ystyried rhoi adborth manylach ac wedi'i deilwra'n fwy i ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.

Mae cyllid grant NVYO wedi cynorthwyo cyrff i sicrhau cyllid ychwanegol er mwyn cynorthwyo'u gweithgareddau gwaith ieuenctid, gan gyflawni un o'r meini prawf allweddol ar gyfer cyllid a chysylltu â nodau ac amcanion strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol 2014-2018. Mae'r cyllid hwn yn galluogi'r cyrff hyn i ddatblygu eu gwaith prosiect ymhellach ym mhob rhan o Gymru, gan ychwanegu gwerth i'w gweithgareddau craidd, eu hannog i gymryd risgiau, i gydweithio ac arloesi, a chaniatáu iddynt dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Nododd y rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr adolygiad hwn bod

cyfanswm lefel cronfeydd grant NVYO wedi gostwng dros y blynyddoedd, ar yr un pryd ag y mae rhai ffynonellau eraill, megis y rhai gan awdurdodau lleol, wedi gostwng yn sylweddol.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfanswm y grant a gaiff ei neilltuo er mwyn sicrhau bod y cronfeydd grantiau sydd ar gael yn bodloni anghenion parhaus y sector.

Mae grant NVYO yn cynorthwyo cyrff i greu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth a datblygu llwybrau dilyniant trwy gyfrwng hyfforddiant achrededig ac addysg gan gymheiriaid, gan fodloni meini prawf cyllid grant NVYO unwaith eto a datblygu gallu a sgiliau ymhellach er mwyn ymateb mewn ffordd hyblyg i anghenion y bobl ifanc y maent yn ymgysylltu â nhw. Mae nifer o'r cyrff a ariannir wedi defnyddio cyllid grant NVYO hefyd er mwyn cynorthwyo a threfnu eu gwirfoddolwyr yn well, ac annog cyfathrebu, trefniadaeth a chynllunio strategol gwell ar gyfer y dyfodol.

Mae ansawdd, ystod a natur y ddarpariaeth gwaith ieuencid a gynorthwyr gan grant NVYO yn galluogi cyrff i gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ar draws Cymru ac mae'n cysylltu â'r nodau ar gyfer gwaith ieuencid a amlinellwyd yn Rhaglen Lywodraethu i Gymru 2015-20. Mae hyn yn cynnwys addysg, hyfforddiant, mynediad i'r celfyddydau a chwaraeon, dinasyddiaeth a rhoi sylw i iechyd corfforol a meddyliol. O ganlyniad i'r cymorth hwn, mae pobl ifanc yn gwella'u bywydau trwy gynyddu eu sgiliau, sicrhau cymwysterau a gwella llwybrau dilyniant.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gysylltu'r cyllid gyda darpariaeth gwaith ieuencid amrywiol ac o ansawdd sy'n gysylltiedig gyda llwybrau dilyniant ac achredu ar gyfer pobl ifanc.

Mae'n anochel y bu problemau i'r rhai y bu eu ceisiadau diweddar yn aflwyddiannus, yn enwedig y rhai a ariannwyd yn y gorffennol. Cyfeiriodd sawl corff aflwyddiannus at anawsterau ariannol a sefydliadol a diffyg gallu i gynllunio mewn ffordd strategol er mwyn tyfu eu corff a chynnig darpariaeth ar draws Cymru.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff y bu eu cais yn aflwyddiannus er mwyn eu cynorthwyo i nodi a chynllunio ffynonellau ariannu amgen cynaliadwy a sicrhau eu gallu i ddarparu gwaith ieuencid ar lefel genedlaethol.

Mae'r cyllid yn galluogi cyrff i gymryd rhan lawn mewn prosiectau ar draws y DU, yn ogystal â dwyn dimensiwn Cymreig i gyrff sy'n weithredol ar draws y DU trwy gyfrwng cynrychiolaeth. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o gyrff yn gweithio ar lefel ryngwladol ac unwaith eto, mae'r cyllid sy'n eu cynorthwyo yn hyn o beth yn rhoi proffil a hunaniaeth i waith ieuencid yng Nghymru a'r sector gwirfoddol. Yn ogystal, mae rhai cyrff yn defnyddio grant NVYO er mwyn gweithio gyda phartneriaid llai ac mae hyn yn cyfrannu at greu gallu o fewn y sector a sicrhau bod gwaith ieuencid yn cael effaith ar lefel leol.

Er hyn, mae angen ystyried gwerth darparu cyllid ar gyfer cyrff gwaith ieuencid gwirfoddol cenedlaethol yn erbyn rhai lleol. Roedd rhai cyrff o'r farn ei bod yn dda o beth cael cyrff cenedlaethol sy'n gallu cynnal gweithgareddau neu brosiectau gwaith ieuencid cenedlaethol ar draws Cymru, gan bod hyn yn cynnig lle/fforwm cenedlaethol i bobl ifanc

gyfarfod. Roedd eraill yn teimlo bod cyrff mwy lleol mewn sefyllfa well i ddarparu cymorth lleol ac i gysylltu â'r ddarpariaeth a gynigir gan wasanaethau ieuenctid awdurdod lleol. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn bwysig ystyried cyllid ar lefel genedlaethol a lleol.

# Atodiad 1: Canllaw i'r pynciau i'w trafod yn ystod cyfweiliadau

---

## Canllaw i'r pynciau i'w trafod gyda Chyrff sy'n cael grant NVYO ar hyn o bryd

### Proses ymgeisio am grant

Pam ymgeisiodd eich corff chi am grant NVYO?

- Ai hwn oedd y cais cyntaf a wnaethpwyd gan eich corff?
- Os na...nodwch fanylion unrhyw geisiadau blaenorol / cyllid llwyddiannus trwy gyfrwng grant NVYO.

Beth yw'ch safbwyntiau am y broses ymgeisio?

- A gawsoch chi ganllawiau ynghylch sut i ymgeisio? Pa mor ddefnyddiol oedd y canllawiau hyn?
- A oes unrhyw ran o'r broses ymgeisio y byddai wedi bod modd ei gwneud yn wahanol? Os oes, beth?

### Gweithgarwch y grant a monitro

Sut mae'ch corff chi yn defnyddio grant NVYO?

- A yw'n cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau craidd neu brosiect, neu gymysgedd o'r ddau?
- Sut mae'r grant yn cysylltu â nodau'ch corff?
- A oes gennych chi unrhyw systemau monitro mewn grym er mwyn monitro sut y caiff y grant ei ddefnyddio a'r effaith y mae'n ei chael?

### Effeithiolrwydd y grant

I ba raddau y mae'r grant wedi cael effaith ar

- Swm ac amrywiaeth y ddarpariaeth gwaith ieuencid a gynigir gan eich corff
- Ansawdd y ddarpariaeth
- Cynladwyedd y ddarpariaeth

Os na fyddai'ch corff chi wedi cael y grant, a fyddai hyn wedi cael effaith ar y math o ddarpariaeth a gynigir gan eich corff, neu ei allu i ddarparu gwaith ieuencid?

### Prif lwyddiannau a sialensiau

Yn eich barn chi, beth fu prif lwyddiannau'r cynllun grant?

A fu unrhyw sialensiau mewn perthynas â'r cynllun grant? Os felly, beth yw'r sialensiau hyn?

## **Ffynonellau cyllid eraill**

A yw'ch corff yn cael cyllid gan ffynonellau eraill?

- Os ydy, beth yw'r ffynonellau cyllid hyn?
- Pa weithgareddau y mae'r cyllid hwn yn eu cynorthwyo?
- Pa mor gynaliadwy yw'r ffynonellau cyllid?

Pa mor dda y mae grant NVYO yn cyd-fynd â'r ffynonellau cyllid eraill hyn?

## **Cynladwyedd**

A oes gan eich corff unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth / gallu y corff a gaiff ei gynorthwyo gan grant NVYO ar hyn o bryd? Os oes, beth yw'r cynlluniau hyn?

## **Safbwyntiau pobl ifanc**

A ydych chi'n casglu unrhyw adborth gan bobl ifanc sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a ariannir gan grant NVYO?

A fyddai modd siarad gyda grŵp o bobl ifanc er mwyn eu clywed eu safbwyntiau nhw am y ddarpariaeth a ariannir gan grant NVYO?

# **Canllaw i'r pynciau i'w trafod gyda chyrrff y bu eu ceisiadau am Grant NVYO yn aflwyddiannus**

## **Proses ymgeisio am grant**

Pam ymgeisiodd eich corff chi am grant NVYO? Beth oedd eich corff yn bwriadu ei wneud gyda'r arian?

- Ai hwn oedd y cais cyntaf a wnaethpwyd gan eich corff?
- Os na...nodwch fanylion unrhyw geisiadau blaenorol / cyllid llwyddiannus trwy gyfrwng grant NVYO.

Beth yw'ch safbwyntiau am y broses ymgeisio?

- A gawsoch chi ganllawiau ynghylch sut i ymgeisio? Pa mor ddefnyddiol oedd y canllawiau hyn?
- A oes unrhyw ran o'r broses ymgeisio y byddai wedi bod modd ei gwneud yn wahanol? Os oes, beth?

A gawsoch chi unrhyw adborth am eich cais aflwyddiannus gan Lywodraeth Cymru?

- Os do, pa mor ddefnyddiol oedd yr adborth hwn?

## **Safbwyntiau am y broses gyllido**

Beth yw'ch safbwyntiau am natur a strwythur cyfredol grant NVYO?

- Ai hwn yw'r dull ariannu mwyaf effeithiol yn eich barn chi?
- Ai hwn yw'r ffordd fwyaf deg o ariannu'r sector yn eich barn chi?
- A fyddai modd gwneud unrhyw welliannau i broses a chynllun grant NVYO?

A yw'ch corff wedi wynebu unrhyw sialensiau ers eich cais aflwyddiannus?

- Os ydy, sut ydych chi wedi goresgyn y rhain?

### **Ffynonellau cyllid eraill**

A yw'ch corff yn cael cyllid gan ffynonellau eraill?

- Os ydy, beth yw'r ffynonellau cyllid hyn?
- Pa weithgareddau y mae'r cyllid hwn yn eu cynorthwyo?
- Pa mor gynaliadwy yw'r ffynonellau cyllid?

Beth yw'ch safbwyntiau am y system ariannu gyfredol er mwyn cynorthwyo gwaith ieuentid gwirfoddol yng Nghymru?

- Sut fyddai modd gwella hon er mwyn cynnig budd i gyrff ar draws y sector yn y dyfodol?

## **Canllaw i'r pynciau i'w trafod gydag Awdurdodau Lleol**

Beth yw'r berthynas rhwng eich gwasanaeth ieuentid a'r sector gwaith ieuentid gwirfoddol?

- A yw'ch gwasanaeth ieuentid yn ariannu cyrff gwaith ieuentid gwirfoddol?
- Os ydy, sut mae hyn wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf?

Sut mae NVYO wedi gwneud gwahaniaeth i'r sector ieuentid gwirfoddol yng Nghymru?

- A yw wedi cael effaith ar y ffordd y mae'ch gwasanaeth ieuentid yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol?
- A ydych chi wedi ymwneud ag unrhyw weithgareddau penodol a ariannwyd trwy NVYO? Os ydych, beth fu effeithiau'r rhain ar y partneriaid dan sylw a'r cyfranogwyr?

I ba raddau y mae cynllun grant NVYO yn cynorthwyo ac yn cyd-fynd â Strategaeth Gwaith Ieuentid Genedlaethol Cymru 2014-2018 yn eich barn chi?

Beth yw'ch safbwyntiau am brif lwyddiannau cynllun grant NVYO?

Beth yw'ch safbwyntiau am brif sialensiau cynllun grant NVYO?

Beth yw'ch safbwyntiau am anghenion cyllido y sector gwaith ieuentid yn y dyfodol?

A oes angen gwneud newidiadau i gynllun a darpariaeth NVYO?

- Os oes, pa newidiadau y dylid eu gwneud?





## Atodiad 2: Rhestr o'r ymgylgoreion

---

### Derbynyddion grant

Clybiau Bechgyn a Merched Cymru – Prif Weithredwr a Swyddog Datblygu Cenedlaethol.

Girlguiding Cymru – Prif Gomisinydd.

ScoutsCymru – Ysgrifennydd Gweithredol/Rheolwr Swyddfa a Swyddog Cymorth Strategol.

Gwobr Dug Caeredin – Cyfarwyddwr DC yng Nghymru a Swyddog Gweinyddol.

Cyfnewid UNA – Cyfarwyddwr.

Urdd Gobaith Cymru – Cyfarwyddwr yr Adran Cymunedol, De Cymru.

Youth Cymru – Prif Swyddog Gweithredol a Swyddog Datblygu.

### Cyrff gwirfoddol eraill

ASH Cymru – Swyddog Datblygu Ieuenctid.

Gwerin y Coed – Swyddog Datblygu.

CFfl Cymru – Cyfarwyddwr.

Y Groes Goch Brydeinig – Uwch-swyddog Codi Arian Statudol ac Ymddiriedolaeth.

Sant Ioan – Cyfarwyddwr Ieuenctid a Rheolwr Datblygu Cenedlaethol Ieuenctid.

### Prif swyddogion ieuenctid awdurdodau lleol neu swyddogion cyfatebol (cyfweiliadau dros y ffôn)

Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyngor Sir Gwynedd.

Cyngor Sir Fynwy.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

### Pobl ifanc

Girlguiding Cymru – gofynnwyd cwestiynau i'r arweinwyr ifanc trwy gyfrwng cylchlythyr mewnol a neges e-bost i'r aelodau, ac roeddent wedi anfon eu hatebion i dîm yr astudiaeth mewn neges e-bost (10 ymateb).

Gwobr Dug Caeredin – trefnwyd cyswllt rhwng tîm yr astudiaeth a dau lysgennad ifanc, yr aethant ymlaen i gyfleu eu sylwadau mewn neges e-bost (2 ymateb).

Urdd – cafwyd adborth mewn neges e-bost gan lywydd y corff (1 ymateb).

Cyfnewid UNA – trafodaeth grŵp gyda phum person ifanc yn ystod cwrs preswyl (un grŵp a oedd yn cynnwys 5 o bobl ifanc).

ScoutsCymru – cyfweiliad dros y ffôn gyda chadeirydd y Cyngor Ieuenctid (1 ymateb)

Youth Cymru – cynhaliwyd trafodaethau wyneb yn wyneb anffurfiol yn ystod digwyddiad cenedlaethol (un grŵp a oedd yn cynnwys tua 8 o bobl ifanc).

### Eraill

Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru – Prif Weithredwr.

Llywodraeth Cymru – Cangen Ymgysylltu Ieuenctid.

Cynhaliwyd trafodaethau wyneb yn wyneb anffurfiol gyda gweithwyr ieuenctid o dri awdurdod lleol ac un corff ieuenctid gwirfoddol yn ystod digwyddiad cenedlaethol youth Cymru.

